CYRRAEDD LLWYBRAU CERDDED AR Y BWS

Caswell a Langland

TEITHIAU CERDDED BYR SY'N GYSYLLTIEDIG Â LLWYBRAU BYSUS

Gŵyr Tirwedd Cenedlaethol Gower National Landscape

CYRRAEDD LLWYBRAU CERDDED AR Y BWS

Caswell a Langland

Beth am adael y car gartref? Teithiwch ar y bws a gallwch helpu i leihau eich ôl troed carbon! Beth am adael i rywun arall yrru wrth i chi fwynhau'r golygfeydd hardd?

GWYBODAETH AM FYSUS

Dydd Llun i ddydd Sadwrn (bob awr),
dydd Sul (dim gwasanaeth)
Rhif. 1 Abertawe - Bae Caswell (drwy'r Mwmbwls)
Mae'r bysus yn teithio rhwng 10:10 a 18:20
Gwiriwch y manylion cyn teithio
Y gweithredwr presennol yw First Bus
www.firstbus.co.uk
Traveline Cymru 0800 464 00 00
www.traveline.cymru

UCHAFBWYNTIAU'R DAITH

- Dau draeth tywodlyd sy'n addas i gadeiriau olwyn, gyda chyfleusterau lluniaeth cyfagos, toiledau hygyrch a chawodydd awyr agored.
- Mae dwy gadair olwyn traeth ar gael i'w defnyddio am ddim. Mae'n rhaid gwneud trefniadau ymlaen llaw. E-bostiwch Peter.Beynon@abertawe.gov.uk.
- Golygfeydd gwych dros Fôr Hafren i ogledd Dyfnaint a thu hwnt.
- Cydiwch yn eich camera a dewch i dynnu lluniau o gytiau traeth enwog Langland o'r 1920au a'r 1930au.
- Gallwch weld brain coesgoch, ehedyddion, hebogiaid tramor a bwncathod ar hyd y llwybr hwn.
- Dewch i weld blodau gwyllt hyfryd fel yr eithinen, clustog Fair a gludlys coch a gwyn yn y gwanwyn.

MANYLION CYSWLLT DEFNYDDIOL

www.croesobaeabertawe.com
www.abertawe.gov.uk/tirweddgenedlaetholgwyr
facebook.com/gowernationallandscape
@TirweddGenedlaetholGwyr

Dechrau a Gorffen: Y safle bysus ar Caswell Road gyferbyn â Caswell Drive, Newton.

Pellter/amser: Tua 2 milltir (3.2km), 1 - 2 awr.

Natur y tir: Mae arwyneb y tir yn amrywio o galed a llyfn i feddal ac anwastad. Mae grisiau ond nid oes unrhyw gamfeydd.

Diogelwch: Mae'r llwybr yn croesi cwrs golff - cadwch lygad am beli golff yn yr awyr! Mae'r llwybr yn agos at glogwyni a llethrau ar hyd yr arfordir. Gwisgwch ddillad ac esgidiau sy'n addas ar gyfer yr amodau a'r tymor.

Lluniaeth: Mae cyfleusterau lluniaeth ym Mae Langland a Bae Caswell.

Amwynderau: Bae Langland – toiledau cyhoeddus sy'n hygyrch gan ddefnyddio allwedd RADAR, cawod awyr agored. Bae Caswell – toiledau cyhoeddus sy'n hygyrch gan ddefnyddio allwedd RADAR, cyfleusterau newid babanod neillryw, lleoedd newid, cawod awyr agored. Ar agor ac ar gael am ddim o 09:00 i 19:00 yn ystod yr haf a 09:00 i 17:00 yn ystod y gaeaf.

Roedd yr wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg - Chwefror 2025.

- Cerddwch yn ôl ar hyd llwybr y bws am ychydig lathenni nes i chi gyrraedd Caswell Road. Trowch i'r chwith ac ar ôl ychydig lathenni trowch i'r dde ar hyd Hillgrove (ffordd breifat ond llwybr troed cyhoeddus).
- Dilynwch Hillgrove nes i chi gyrraedd diwedd y ffordd a bydd yn troi'n llwybr troed sy'n croesi'r cwrs golff.
- Dilynwch y llwybr tuag at y môr lle byddwch yn gweld grisiau'n arwain i lawr at lwybr yr arfordir. Cerddwch yn ofalus i lawr y grisiau a throwch i'r chwith ar hyd llwybr yr arfordir. Dilynwch y llwybr hwn nes i chi gyrraedd Bae Langland.
- Cerddwch heibio'r cytiau traeth a throwch i'r chwith ar ôl i chi gyrraedd Langland's Brasserie. Trowch i'r chwith unwaith eto ar Langland Bay Road a cherddwch tuag at Glwb Golff Langland.
- Cyn y clwb, trowch i'r dde heibio'r arwydd 'dim mynediad' a dilynwch y llwybr cul ar draws y cwrs golff, ac yna ochr yn ochr ag ef (neu gerllaw).
- Yna, byddwch yn cyrraedd llwybr. Croeswch y llwybr a dringwch y grisiau i gyrraedd y llwybr uwch ac yna dychwelwch i Hillgrove, y ffordd roeddech wedi ei dilyn yn gynharach.
- Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr, gan gerdded yn ôl i Caswell Road. Trowch i'r chwith ac yna i'r dde i ddychwelyd i'r safle bysus.

Mae taflenni eraill yn y gyfres hon ar gael o'r rhesel y tu mewn i'r fynedfa i **Ganolfan Ddinesig Abertawe**, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN, neu gallwch eu lawrlwytho fel PDF yn **www.abertawe.gov.uk/cerdded**.

Gŵyr Tirwedd Cenedlaethol Gower National Landscape

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Cyngor Abertawe Swansea Council